| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Diogelu - Meithrinfa Toybox<br>Safeguarding - Toybox Nursery |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students Nursery parents , staff and children |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Impact assessment* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Rhestrwch nhw / Please list*<br>Staff y Feithrinfa, grŵp diogelu<br>Nursery staff , safeguarding group | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *15/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 15/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Diogelu**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Bwriad y polisi | 3 |
| 3. | Y gwahanol fathau o gamdriniaeth a'r gweithdrefnau penodol i'w dilyn | 9 |
| 4. | Monitro Presenoldeb Plant | 15 |
| 5. | Plant sy'n derbyn gofal | 15 |
| 6. | Staffio a Gwirfoddoli | 15 |
| 7. | Siartiau llif amddiffyn plant | 18 |


## 1. Cyflwyniad

Polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant

Ym Meithrinfa Toybox rydym yn gweithio gyda'r plant, rhieni, asiantaethau allanol a'r gymuned, i sicrhau lles a diogelwch plant ac i roi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt. Mae gan blant yr hawl i gael eu parchu, cael cymorth i ffynnu a bod yn ddiogel rhag unrhyw gamdriniaeth ar ba bynnag ffurf.

Rydym yn cynorthwyo'r plant sydd yn ein gofal, yn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac mae gennym weithdrefnau cadarn ar waith i atal niwed i iechyd a datblygiad plant. Yn ein lleoliad rydym yn ymdrechu i amddiffyn plant rhag y risg o radicaleiddio ac rydym yn hyrwyddo derbyn a goddefiad o gredoau a diwylliannau eraill (cyfeiriwch at ein polisi Cynhwysiant a chydraddoldeb am ragor o wybodaeth). Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb ar bawb. Bydd pob cydweithiwr, myfyriwr, cydweithiwr llanw ac ymwelydd yn ymwybodol o'r polisi a bydd gofyn iddynt gadw ato. Maen nhw hefyd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru a'r ap sydd ar gael i'w lawrlwytho:

https://socialcare.wales/cms-assets/documents/16.-Wales-Safeguarding-Procedures-app-activities.pdf

Mae diogelu yn faes llawer ehangach na'r elfennau sydd yn y polisi unigol hwn, felly dylid defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau eraill y feithrinfa gan gynnwys:

- Diogelwch Ar-lein
- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Plant, dyletswydd Prevent a radicaleiddio
- Cam-drin Domestig,  Trais ar sail Anrhydedd a Phriodasau dan Orfod
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Cod Ymddygiad Cydweithwyr
- Rhwydweithio Cymdeithasol
- Defnydd o Ffôn Symudol a Dyfeisiau Electronig
- Recriwtio cydweithwyr yn fwy diogel
- Disgyblu
- Hyrwyddo ymddygiad bositif.
- Teledu Cylch Cyfyng (TCC)
- Meddyginiaeth
- Gweithdrefn diogelu Coleg Cambria

Fframwaith cyfreithiol a diffiniad o ddiogelu

- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Gofal Plant 2006 (wedi'i ddiwygio 2018)

- Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006)
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012
- Gweithdrefnau Diogelu ar gyfer Cymru (2019)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Dyletswydd Prevent 2015
- Cydweithio i ddiogelu pobl
- Cadw dysgwyr yn ddiogel
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003

Mae diogelu yn golygu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.
(Diffiniad wedi'i gymryd o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019).

**2. Bwriad y polisi**

- I Ddiogelu plant ac i hyrwyddo eu lles, byddwn yn:
- Creu amgylchedd sy'n annog plant i ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol;
- Darparu modelau rôl cadarnhaol a chreu diwylliant diogel lle mae staff yn hyderus i fynegi pryderon am ymddygiad proffesiynol
- Sicrhau fod yr holl staff yn gallu adnabod yr arwyddion a'r dangosyddion o gamdriniaeth gan gynnwys yr arwyddion llai amlwg o gamdriniaeth a gwybod pa gamau i'w cymryd
- Annog plant i feithrin ymdeimlad o annibyniaeth ac ymreolaeth mewn modd sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu
- Darparu amgylchedd diogel a saff i bob plentyn
- Hyrwyddo goddefgarwch a derbyn gwahanol gredoau, diwylliannau a chymunedau
- Gwrando ar y plant bob amser
- Darparu amgylchedd lle mae ymarferwyr yn hyderus i nodi lle gallai plant a theuluoedd fod angen ymyriad a chwilio am yr help sydd ei angen arnynt
- Rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill fel sy'n briodol.

Mae staff y feithrinfa'n ymwybodol bod plant yn cael eu cam-drin yn ein cymdeithas ac rydym yn wyliadwrus wrth adnabod arwyddion o gam-drin a rhoi gwybod am bryderon. Mae gan ein hymarferwyr (yr holl bobl mewn swyddi sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant, boed hynny'n daledig neu ddim) ddyletswydd i amddiffyn a hyrwyddo llesiant ein plant. Yn aml, cydweithwyr sy'n gweithio ar y rheng flaen gyda phlant a theuluoedd yw'r bobl gyntaf i nodi pryder, arsylwi newidiadau yn ymddygiad plentyn neu gael gwybodaeth yn ymwneud â dangosyddion cam-drin. Efallai mai nhw yw'r bobl gyntaf y mae'r plant yn ymddiried ynddynt a rhoi gwybodaeth iddynt allai awgrymu camdriniaeth neu sylwi ar newidiadau yn ymddygiad plentyn a allai ddynodi camdriniaeth.

Ein prif gyfrifoldeb yw lles a llesiant pob plentyn yn ein gofal. Mae gennym felly ddyletswydd i'r plant, y rhieni a'r staff, i weithredu'n gyflym ac yn gyfrifol mewn unrhyw achos allai ddod i'n sylw. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ag unrhyw asiantaethau perthnasol fel gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant, cymorth i deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys ymwelwyr iechyd neu'r heddlu. Bydd y staff i gyd yn gweithio gydag asiantaethau eraill er budd gorau'r plentyn gan gynnwys bod yn aelodau o dîm amlasiantaeth, lle bo angen hynny.

Nod y feithrinfa yw:

- Cadw’r plentyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan ddarparu rhyngweithiadau sensitif sy’n datblygu ac yn adeiladu llesiant, hyder a gwydnwch plant. Byddwn yn helpu plant i ddatblygu ymwybyddiaeth i sut i gadw eu hunain yn ddiogel, iach ac i ddatblygu perthnasau positif.
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ymsefydlu prydlon i ddeall y polisi a'r gweithdrefnau diogelu plant ac amddiffyn plant, eu bod yn wyliadwrus i nodi arwyddion posibl o gam-drin (gan gynnwys yr arwyddion llai amlwg o gam-drin), deall beth yw ystyr amddiffyn plant a'u bod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gall plant gael eu niweidio, gan gynnwys gan blant eraill (gan gyfoedion) drwy fwlio neu ymddygiad gwahaniaethol
- Bod yn ymwybodol o fregusrwydd cynyddol plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), teuluoedd ynysig a bregusrwydd mewn teuluoedd gan gynnwys effaith triawd gwenwynig ar blant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)
- Sicrhau bod staff yn deall sut i adnabod dangosyddion cynnar o radicaleiddio a bygythiadau o derfysgaeth posibl a gweithredu’n briodol yn unol â gweithdrefnau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys drwy cylchlythyrau diogelu a’r wybodaeth ddiweddaraf.
- Sicrhau bod staff i gyd yn teimlo’n hyderus a’u bod yn derbyn cymorth i weithredu er lles gorau’r plentyn, gan gynnal chwilfrydedd broffesiynol ynghylch llesiant plant, rhannu gwybodaeth a chwilio am yr help y bydd efallai ei angen ar y plentyn, a hynny ar y cyfle cynharaf.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda hyfforddiant a gweithdrefnau amddiffyn plant, a'u bod yn cael gwybod am newidiadau i weithdrefnau rhanbarthol/cenedlaethol, gan gynnwys trwy gylchlythyrau a diweddariadau diogelu blynyddol.
- Gwneud unrhyw adroddiadau mewn modd amserol, gan rannu gwybodaeth berthnasol yn ôl yr angen yn unol â gweithdrefnau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a’r Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (Byrddau Diogelu Rhanbarthol)
- Gwneud unrhyw adroddiadau yn ymwneud ag eithafiaeth i'r heddlu (neu linell gymorth y Llywodraeth) mewn modd amserol gan rannu gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r bobl hynny sydd angen gwybod er mwyn amddiffyn y plentyn a gweithredu er eu budd gorau.
- I gadw’r lleoliad yn ddiogel ar-lein, rydym yn cyfeirio at 'Diogelu plant ac amddiffyn gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar: ystyriaethau diogelwch ar-lein a defnyddio hidlwyr, gwiriadau a mesurau diogelwch priodol, monitro mynediad bob amser a chynnal mesurau diogelwch ynghylch defnyddio technoleg gan gydweithwyr, rhieni ac ymwelwyr yn y lleoliad
- Sicrhau bod staff yn nodi, lleihau a rheoli risgiau wrth ofalu am blant. Sylwi ar unrhyw newid yn ymddygiad y staff a gweithredu yn unol â’r Polisi Ymddygiad Staff.
- Gweithredu’n briodol ynglŷn â honiadau o niwed difrifol neu gamdriniaeth yn erbyn unrhyw un sy’n gweithio gyda phlant, neu sy’n byw neu’n gweithio yn adeiladau’r feithrinfa gan gynnwys rhoi gwybod am honiadau o’r fath i AGC, swyddog yr awdurdod lleol ac unrhyw awdurdodau perthnasol eraill.
- Sicrhau bod rhieni yn hollol ymwybodol o’r polisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant wrth iddynt gofrestru â’r feithrinfa a chael gwybod am yr holl ddiweddariadau pan fyddant yn digwydd
- Adolygu a diweddaru’r polisi hwn yn rheolaidd gyda’r staff a’r rhieni, lle bo hynny’n berthnasol, a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau a gyhoeddwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

**Unigolyn Diogelu Penodedig**

Mae gennym unigolion a enwyd yn y feithrinfa sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu a chydlynu materion amddiffyn a lles plant. Yr enw arnynt yw’r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) ac mae o leiaf un unigolyn dynodedig ar ddyletswydd bob amser yn ystod holl oriau agor y lleoliad. Bydd yr unigolion dynodedig hyn yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr o leiaf bob dwy flynedd ac yn diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus, ac o leiaf unwaith y flwyddyn.

Os yw'r staff yn credu nad yw pryder am ddiogelu yn cael ei gymryd o ddifrif yn y lleoliad rydym yn eu hannog i ffonio'r BLLDP neu linell gymorth Chwythu'r Chwiban y NSPCC er mwyn amddiffyn y plant yn eu gofal.

Mae UDD y feithrinfa yn cyfathrebu â'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) a gyda thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol. Mae’r unigolyn yn ymgymryd â hyfforddiant penodol gan gynnwys cwrs hyfforddiant amddiffyn plant ac yn derbyn y wybodaeth diweddaraf yn rheolaidd am ddatblygiadau yn y maes hwn. Maent yn eu tro yn cefnogi datblygiad parhaus a diweddaru gwybodaeth eu holl gydweithwyr ar y tîm.

Gwybodaeth gyswllt ar gyfer yr Unigolyn Diogelu Dynodedig yn y feithrinfa:

Ann Johnson
Rheolwr y Feithrinfa
Prif Swyddfa
Ann.johnson@cambria.ac.uk

Y dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) yn y feithrinfa yw: Pam Quinn

Mae'r rhifau ffôn wedi'u rhestru isod ar gael ac wedi'u diweddaru gan yr UDD (a gan unigolion eraill pan na fydd yr UDD ar gael). Bydd unrhyw un sy'n cysylltu â'r asiantaethau hyn yn rhoi gwybod i'r asiantaeth am yr UDD (fel y person mwyaf priodol i ofyn amdano os yw'n dychwelyd galwad) ac yn rhoi gwybod i'r UDD eu bod wedi cysylltu â'r asiantaeth a pham os yw'n briodol.

Rhifau ffôn
*AGC 0300 7900126
Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol - 01824 712903
Tîm Gofal Cymdeithasol Plant yr awdurdod lleol - 01352 701000
Tîm Dyletswydd Brys Tu Allan i Oriau 01352 701000
Rhif ffôn heb fod yn argyfwng yr heddlu 101
Rhif ffôn yr heddlu mewn argyfwng 999
Llinell gymorth y llywodraeth ar gyfer pryderon am eithafiaeth 020 7340 7264
Llinell frys chwythu'r chwiban NSPCC 0800 028 0285
Childline NSPCC 0800 1111
NSPCC 0808 800 5000
Gorchymyn camfanteisio ar blant a diogelu ar-lein (CEOP) https://www.ceop.police.uk/safety-centre/
https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn?

**Gweithdrefnau Rhoi Gwybod**
Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod staff i roi gwybod am bryderon diogelu ac amheuon o gam-drin plant yn y feithrinfa. Bydd y pryderon hyn yn cael eu trafod gyda'r cydlynydd diogelu dynodedig (DCSO) cyn gynted â phosibl.

- Bydd staff yn rhoi gwybod am eu pryderon i'r DSP (yn absenoldeb y DSP byddant yn cael eu hadrodd i'r dirprwy DSP). Os nad yw'r naill na'r llall ar gael, cysylltir â'r gwasanaethau cymdeithasol lleol.
- Bydd unrhyw arwyddion o farciau/anafiadau i blentyn neu wybodaeth y mae plentyn wedi'i rhoi yn cael eu cofnodi a'u cadw'n ddiogel. Bydd cydweithwyr yn cael cymorth gan UDD fel y bo'n briodol. Bydd yr UDD yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a'u cyrchu pan fo angen
- Ar gyfer plant sy'n cyrraedd y feithrinfa gydag anaf sy'n bodoli eisoes, bydd ffurflen yn cael ei llenwi ynghyd ag esboniad y rhiant ynghylch sut digwyddodd yr anaf. Bydd cydweithwyr yn defnyddio chwilfrydedd proffesiynol ynghylch unrhyw esboniadau a bydd unrhyw bryderon ynghylch anafiadau presennol yn cael eu hadrodd
- Os yw'n briodol, bydd unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau yn cael eu trafod gyda'r rhiant/gofalwr. Bydd trafodaethau o'r fath yn cael eu cofnodi a bydd gan y rhiant fynediad at y cofnodion hyn ar gais yn unol â chanllawiau GDPR a diogelu data.
- Os oes ymholiadau/pryderon ynghylch yr anaf/wybodaeth a roddir yna byddwn yn dilyn y gweithdrefnau a ganlyn.

Bydd yr unigolyn diogelu dynodedig yn:

- Cysylltu â thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol i ofyn am gyngor a/neu roi gwybod am bryderon lle mae achos rhesymol i amau cam-drin neu esgeulustod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny (o fewn 24 awr i godi'r mater)
- Cymryd cyngor gan y gwasanaethau plant ynghylch pryd a beth i'w ddweud wrth y rhieni
- Byddwn yn cysylltu â'r heddlu os ydym yn credu fod plentyn mewn perygl uniongyrchol.
- Os bydd y pryder diogelu yn berthnasol i honiad yn erbyn oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant yna bydd yr UDD yn dilyn y weithdrefn adrodd ar honiadau (gweler isod)
- Cofnodi'r wybodaeth a'r camau a gymerwyd yn gysylltiedig â'r pryderon a fynegwyd.
- Bydd yr unigolyn diogelu dynodedig yn dilyn y camau a gymerwyd gan dîm gofal cymdeithasol plant yr ALl, os nad ydynt wedi cysylltu â'r lleoliad yn ystod y ffrâm amser statudol o 7 diwrnod gwaith.
- Rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gweithio gyda Thîm Diogelu Coleg Cambria

- Bydd yr UDD gyda Rheolwr y Feithrinfa ac unrhyw bersonél priodol arall yn penderfynu sut i helpu'r plentyn a'r teulu yn ystod unrhyw gamau dilynol mewn ymateb i'r adroddiad diogelu.

Mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth gennym, ac os nad yw cydweithwyr, am ba bynnag reswm, yn teimlo eu bod yn gallu adrodd eu pryderon i'r UDD neu'r Dirprwy UDD yna dylent gysylltu â thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol neu'r NSPCC ac adrodd ar eu pryderon yn ddienw.

Mae'r rhifau cyswllt i'w gweld yn y brif swyddfa

**Ymateb i ddatgeliad dirybudd gan blentyn**
Os yw plentyn yn dechrau siarad yn agored gyda aelod staff am gamdriniaeth sydd o bosib yn digwydd iddyn nhw yna bydd y cydweithiwr yn:

- Rhoi eu sylw llawn i'r plentyn neu'r person ifanc
- Cadw iaith y corff yn agored ac yn galonogol
- Dangos tosturi, dealltwriaeth a sicrhau eu bod yn deall bod eu teimladau yn bwysig, gan ddefnyddio geiriau fel 'rwyt ti wedi bod mor ddewr heddiw'
- Cymryd eu hamser ac arafu: byddwn yn parchu seibiannau ac ni fyddwn yn torri ar draws y plentyn – gadael iddynt fynd ar gyflymder eu hunain.
- Adnabod ac ymateb i iaith eu corff
- Dangos dealltwriaeth ac adfyfyrio'n ôl
- Ei gwneud yn glir fod gennych ddiddordeb yn yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud.
- Adfyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddweud a gwneud yn siŵr eich bod yn deall - ac amlygu mai eu profiad nhw ydio drwy ddefnyddio eu hiaith nhw
- Tawelu meddwl y plentyn eu bod wedi gwneud y peth iawn yn dweud wrthoch chi. Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod ei fod byth yn fai arnyn nhw nhw os ydyn nhw'n cael eu cam-drin.
- Peidio byth â siarad gyda'r troseddwr honedig am ddatgeliad y plentyn. Gall hyn ei gwneud hi'n llawer gwaeth ar gyfer y plentyn.
- (Gwybodaeth wedi'i chael gan yr NSPCC)

Bydd unrhyw ddatgeliad yn cael ei adrodd i reolwr y feithrinfa neu'r UDD a'i gyfeirio'n syth at y tîm gofal cymdeithasol plant yn yr awdurdod lleol gan ddilyn ein gweithdrefnau adrodd.

**Cofnodi amheuon o gamdriniaeth a datgeliadau**
Dylai staff wneud cofnod gwrthrychol o unrhyw arsylwad neu ddatgeliad, gyda chymorth rheolwr y feithrinfa neu'r UDD ddim mwy na 24 awr ar ôl y datgeliad. Dylai'r cofnod hwn gynnwys:

- Enw'r plentyn
- Cyfeiriad y plentyn
- Oed y plentyn a'i ddyddiad geni
- Dyddiad ac amser yr arsylwad neu'r datgeliad, lleoliad.
- Yr union eiriau ddywedodd y plentyn (gair am air) a chyfathrebu heb eiriau.
- Union leoliad a'r math o anafiadau neu farciau a welwyd
- Union arsylwadau o unrhyw ddigwyddiad gan gynnwys unrhyw bryder yr adroddwyd yn ei gylch, gyda'r dyddiad a'r amser; ac enwau unrhyw bersonau oedd yn bresennol ar y pryd.
- Unrhyw drafodaeth a gafodd ei gynnal gyda'r rhiant/rhieni (os tybiwyd bod hynny'n briodol)

Mae'n rhaid llofnodi'r cofnodion gan y sawl sy'n rhoi gwybod am hyn gyda'r rheolwr yn nodi'r dyddiad a chadw'r cofnodion mewn ffeil gyfrinachol ar wahân.

Os yw plentyn yn dechrau siarad ag oedolyn am gamdriniaeth posib yna mae'n bwysig peidio ag addo y gellir cadw cyfrinachedd llwyr. Ni ellir cadw'r addewid hwn. Mae'n hanfodol bod y plentyn yn cael siarad yn agored ac nad yw'n cael ei orfodi i ddatgelu rhywbeth na rhoi geiriau yn ei geg. Rhaid cofnodi'r manylion am y datgeliad yn gywir cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Nid rôl y feithrinfa yw ymchwilio, nac i benderfynu os yw camdriniaeth yn cymryd lle, rôl y gwasanaethau statudol yw hi i ymgymryd â hyn.

Mae’n bosib y bydd angen i staff sy’n rhan o achos diogelu ddarparu manylion ynghylch unrhyw wybodaeth/pryderon sydd ganddynt am blentyn. Mae'r feithrinfa yn disgwyl i bob aelod staff gydymffurfio gyda thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, yr heddlu, a’r AGC mewn unrhyw ffordd i sicrhau diogelwch y plant.

Rhaid i staff beidio â gwneud unrhyw sylwadau, boed hynny’n gyhoeddus neu’n breifat, am ymddygiad honedig neu wirioneddol gan riant, plentyn neu gydweithiwr.

**Rhoi gwybod i rieni**
Bydd yr UDD yn cael cyfarwyddyd gan y gwasanaethau plant cyn hysbysu rhieni.
Rhieni fel arfer yw'r man cyswllt cyntaf. Os oes amheuaeth yn cael ei gofnodi ynglŷn â chamdriniaeth, hysbysir y rhieni wrth i’r adroddiad gael ei wneud, heblaw pan nad yw canllawiau tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol/heddlu yn caniatáu hyn. Dyma sydd yn digwydd fel rheol os mai’r rhiant neu aelod o’r teulu yw’r camdriniwr tebygol, neu ble gall y plentyn fod mewn perygl oherwydd y datgeliad. Bydd y penderfyniad a’r rheswm am beidio hysbysu rhieni yn cael ei gofnodi. Yn yr achosion hyn bydd y swyddogion ymchwilio yn rhoi gwybod i’r rhieni. Bydd gwybodaeth i’r teulu, os oes achos rhesymol i amau bod y plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol, yn cynnwys esboniad pam bod achos rhesymol i amau bod y plentyn yn profi neu mewn risg o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu mathau eraill o niwed, a bod ymholiadau yn cael eu gwneud.

**Cyfrinachedd**
Byddwn yn cadw pob amheuaeth, ymholiad ac ymchwiliad allanol yn gyfrinachol a dim ond gyda’r rhai y mae angen iddynt wybod y byddwn yn eu rhannu. Caiff unrhyw wybodaeth ei rhannu’n unol â chanllawiau gan yr awdurdod lleol. Rhaid i bob aelod staff, myfyriwr a gwirfoddolwr gadw cyfrinachedd, ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei thrafod y tu allan i’r gwaith neu bydd hyn yn dod yn fater disgyblu.

Mae’r Feithrinfa yn rhoi sylw dyledus i egwyddorion diogelu data fel y’u nodwyd yn Neddf Diogelu Data 2018 a’r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Nid yw’r rhain yn gwahardd casglu data na rhannu gwybodaeth bersonol, a hynny hyd yn oed heb ganiatâd pe byddai hyn yn gosod y plentyn mewn perygl pellach. Byddwn yn dilyn yr egwyddorion ar gyfer casglu data a rhannu gwybodaeth ac yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy’n cael ei gofnodi yn gywir ac yn gyfredol, ac yn cael ei rannu mewn modd priodol.
Canllaw defnyddiol:
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/information-sharing-to-safeguard-children-and-adults.pdf

**Cymorth i deuluoedd**
Mae'r feithrinfa'n cymryd pob cam posib i feithrin perthnasoedd sy’n helpu ac y gellir ymddiried ynddyn nhw ymhlith teuluoedd, aelodau staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr yn y feithrinfa.

Mae'r feithrinfa'n parhau i groesawu'r plentyn a'r teulu wrth i ymholiadau gael eu gwneud ynghylch cam-drin yn y cartref. Bydd rhieni a theuluoedd yn cael eu trin â pharch mewn modd anfeirniadol tra bod unrhyw ymchwiliadau allanol yn cael eu cynnal, er lles pennaf y plentyn.

**Cadw cofnodion**
Bydd cofnodion cyfrinachol am y plentyn yn cael eu rhannu gyda rhieni’r plentyn neu eraill sydd â gofal rhiant dros y plentyn, dim ond os yw hynny’n briodol yn unol â chanllawiau’r awdurdod lleol, ar yr amod mai diogelwch a gofal dros y plentyn sy’n dod gyntaf. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i helpu ac i weithio gyda theulu'r plentyn.
Mae’r feithrinfa yn cadw cofnodion priodol i gynorthwyo â'r dasg o adnabod yn gynnar y plant a theuluoedd a allai elwa o gael cymorth. Mae cofnodion ffeithiol yn cael eu cadw mewn trefn amser gyda thrafodaethau â’r rhieni. Mae cofnodion yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan yr UDD er mwyn gallu adnabod anghenion y plentyn mewn modd cyfannol.

Honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant
Os gwneir honiad yn erbyn aelod staff, myfyriwr neu wirfoddolwr neu unrhyw unigolyn arall sy'n byw neu'n gweithio yn adeilad y feithrinfa, ni waeth a yw'r honiad yn ymwneud ag adeilad y feithrinfa neu rywle arall, byddwn yn dilyn y weithdrefn isod.

Bydd hyn yn cynnwys lle honnir bod aelod o staff wedi:

- ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn, neu a allai fod wedi niweidio plentyn
- efallai cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu'n gysylltiedig ag ef, neu
- ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn ffordd sy'n dangos y byddai ef neu hi yn peri risg o niwed pe byddent yn gweithio'n rheolaidd neu'n agos gyda phlant.

Dylid rhoi gwybod am yr honiad i'r uwch reolwr ar ddyletswydd. Os yw'r person hwn yn destun yr honiad, yna dylid rhoi gwybod am hyn i swyddog diogelu'r Coleg.

Yna bydd Unigolyn Dynodedig yr Awdurdod Lleol (UDALL), AGC a'r BDPRh (Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol) yn cael eu hysbysu'n ddi-oed er mwyn i'r cyrff priodol allu cynnal eu harchwiliadau ar unwaith:

- Byddwn yn hysbysu UDALL ar unwaith am gyngor ac arweiniad gan ddilyn gweithdrefnau adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru
- Os byddwch yn teimlo fel unigolyn na chaiff hyn ei gymryd o ddifrif neu eich bod yn poeni y gallai'r person dan sylw ddod i wybod am yr honiad yna mae'n ddyletswydd arnoch i hysbysu UDALl yn uniongyrchol
- Bydd ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal gan y gweithwyr proffesiynol priodol (UDALL, AGC, BDPRh) i bennu sut mae'r mater yn cael ei drin. Gweler:
- https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c5/
- Bydd y feithrinfa yn dilyn pob cyfarwyddyd gan AGC a BDPRh ac yn gofyn i bob cydweithiwr wneud yr un peth ac i gydweithredu pan fo angen
- Bydd cymorth yn cael ei ddarparu i bob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r honiad trwy gydol yr archwiliad allanol yn unol â chymorth a chyngor gan yr UDALL
- Mae'r feithrinfa yn cadw'r hawl i atal unrhyw gydweithiwr rhag gweithio yn ystod ymchwiliad. Byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.
- Bydd pob ymholiad/ymchwiliadau allanol/cyfweliadau yn cael eu dogfennu a'u cadw mewn ffeil wedi ei chloi a bydd gan yr awdurdodau perthnasol fynediad atynt
- Bydd asesiad risg addas yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn
- Bydd y feithrinfa yn gofyn am gyngor gan yr heddlu a/neu UDALL am faint o wybodaeth all gael ei rhannu gyda'r unigolyn/unigolion y mae pryder amdanynt
- Bydd honiadau di-sail yn arwain at adfer pob hawl
- Bydd honiadau ag iddynt sail yn cael eu cyfeirio at y sefydliadau perthnasol gan gynnwys tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a phan fo lle i gredu bod trosedd wedi'i chyflawni, yr heddlu, a chanlyniad hyn fydd diswyddo. Bydd AGC yn cael gwybod ar unwaith am y penderfyniad hwn. Bydd y feithrinfa hefyd yn hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o ran ystyriaethau gwahardd
- Bydd pob cofnod yn cael ei gadw hyd nes bo'r person yn cyrraedd oed ymddeol arferol neu am 10 mlynedd os yw hyn yn gyfnod hirach. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael ar gyfer geirdaon a gwiriadau DBS yn y dyfodol ac yn osgoi unrhyw ail-ymchwiliad diangen
- Mae'r feithrinfa'n cadw'r hawl i ddiswyddo unrhyw gydweithiwr mewn cysylltiad â honiadau gyda sail iddyn nhw'n dilyn ymholiad
- Bydd honiadau di-sail yn arwain at adfer pob hawl
- Bydd cwnsela ar gael i unrhyw aelod o'r feithrinfa sy'n cael ei effeithio gan honiad, eu cydweithwyr yn y feithrinfa a'r rhieni.
- Bydd cynllun dychwelyd i'r gwaith yn cael ei sefydlu ar gyfer cydweithiwr sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn honiad a gafwyd yn ddi-sail. Bydd cymorth unigol yn cael ei gynnig i gwrdd ag anghenion y cydweithiwr unigol a natur y digwyddiad. Gall hyn gynnwys goruchwylio mwy cyson, hyfforddi a mentora a chymorth allanol.

**Rôl yr UDD**

- Sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn cael eu hadolygu a'u datblygu yn unol â chanllawiau cyfredol a datblygu dealltwriaeth cydweithwyr o bolisïau diogelu'r lleoliad
- Arwain ar ymateb i wybodaeth gan dîm y feithrinfa sy'n ymwneud â phryderon amddiffyn plant
- Darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ar sail gyfredol i gydweithwyr, myfyrwyr a gwirfoddolwyr, yn arbennig y rhai allai ddod yn rhan o bryder diogelu
- Adnabod plant a fydd o bosib angen cymorth cynnar neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin
- Helpu cydweithwyr i sicrhau bod y cymorth gywir ar gael i deuluoedd
- Cysylltu â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill ynghylch pryderon amddiffyn plant

- Ystyried a oes “sail rhesymol i amau” camdriniaeth, esgeulustod neu niwed arall i blentyn sydd yng ngofal y feithrinfa a llunio adroddiad diogelu yn unol â hynny i wasanaethau plant awdurdod lleol cartref y plentyn
- Sicrhau bod y lleoliad yn cwrdd â gofynion AGC/Estyn
- Sicrhau bod polisïau yn cyd-fynd â gweithdrefnau a manylion Diogelu Rhanbarthol
- Rhannu ymarfer a diweddariadau i ddeddfwriaeth i sicrhau bod yr holl gydweithwyr wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymarfer diogelu
- Rheoli a monitro damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau cyfredol gyda’r person sy’n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf a sicrhau bod cofnodion cywir a phriodol yn cael eu cadw
- Mynd i gyfarfodydd gyda gweithiwr allweddol y plentyn
- Mynd i gynadleddau achos a chyfarfodydd diogelu allanol yn unol â chais asiantaethau allanol.
- Y gwahanol fathau o gamdriniaeth a’r gweithdrefnau penodol i’w dilyn
- Mae cam-drin ac esgeulustod yn fathau o gam-drin plentyn Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy eu niweidio neu fethu â gweithredu i atal niwed. Mae’n bosib i blant gael eu cam-drin mewn lleoliad teulu, sefydliad, neu gymuned gan bobl maent yn eu hadnabod neu yn fwy anaml gan ddieithriaid. Gallai’r rhain fod yn un oedolyn neu’n oedolion, yn blentyn arall neu’n blant eraill.

**3. Y gwahanol fathau o gamdriniaeth a’r gweithdrefnau penodol i’w dilyn**

Ni fydd yr arwyddion na’r dangosyddion yn y rhestr isod o angenrheidrwydd yn dangos bod plentyn wedi cael ei gam-drin, ond bydd yn ein helpu ni i sylweddoli bod rhywbeth o’i le, yn enwedig os yw plentyn yn dangor nifer o’r symptomau hyn neu unrhyw un ohonynt yn helaeth.

Dangosyddion Cam-drin Plentyn
- Methu â ffynnu a chyrraedd cerrig milltir datblygu
- Tueddu i fod yn ofnus neu’n dawedog
- Anafiadau heb eglurhad iddynt i blentyn neu adroddiadau anghyson â’i gilydd gan y rhieni neu gydweithwyr
- Anafiadau sy’n ailadrodd
- Salwch neu anafiadau nad ydynt yn cael sylw
- Newidiadau sylweddol i batrymau ymddygiad.

Mae arwyddion llai amlwg o gam-drin sydd wedi cael eu diffinio gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), yn cynnwys:

Cyflyrau emosiynol:
- Ofnus
- Swildod
- Hunan-barch isel

Ymddygiad:
- Ymosodol
- Siglo’n ôl ac ymlaen yn gyson

Ymddygiadau rhyngbersonol:
- Cysylltu’n ddiwahân neu’n ceisio cael hoffter rhywun
- Gor-gyfeillgarwch tuag at ddieithriaid gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Glynu’n ormodol, yn chwilio am sylw’n gyson
- Arddangos ymddygiad rhy 'dda' i atal anghymeradwyaeth rhieni neu ofalwyr
- Methu â cheisio na derbyn cysur neu anwyldeb priodol gan berson priodol pan fydd mewn trallod sylweddol
- Ymddwyn mewn ffordd sy’n rheoli a gorfodi rhieni a gofalwyr
- Diffyg gallu i ddeall ac adnabod emosiynau
- Plant ifanc iawn yn dangos ymddygiad sy’n gor-gysuro wrth weld trallod rhiant neu ofalwr.

**Cam-drin rhwng cyfoedion**
Rydym yn ymwybodol bod camdriniaeth yn gallu digwydd rhwng cyfoedion, felly rydym yn cynnwys plant yn ein polisïau wrth sôn am gamddefnyddwyr posib. Gall ddigwydd ar ffurf bwlio, plentyn yn anafu plentyn arall yn

gorfforol, camdriniaeth emosiynol neu rywiol. Byddwn yn adrodd am hyn yn yr un modd ag y gwnawn ar gyfer oedolion sy'n cam-drin plant, a byddwn yn cymryd cyngor gan y cyrff priodol yn y maes hwn, i gefnogi'r dioddefwr a'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd gan y gallent hwythau fod yn ddioddefwr camdriniaeth hefyd. Rydym yn gwybod bod plant sy'n datblygu ymddygiad rhywiol niweidiol yn aml wedi profi camdriniaeth ac esgeulustod eu hunain.

**Esgeuluso**

Mae gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant yn diffinio esgeuluso fel methiant i gwrdd ag anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol plentyn, sydd yn debygol o achosi nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam.

Unwaith i'r plentyn gael ei eni, gall esgeuluso ddigwydd pan fo rhiant neu ofalwr yn methu â:
a. Darparu bwyd, dillad a chysgod digonol (gan gynnwys eu cau allan o'r
cartref neu gefnu arnynt)
b. Amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol
c. Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio darparwyr gofal sy'n annigonol)
d. sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol
Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Gall yr arwyddion gynnwys plentyn sy'n cyrraedd y feithrinfa yn gyson heb ymolchi neu'n flêr, yn gwisgo dillad sy'n rhy fach (yn enwedig esgidiau sy'n gallu cyfyngu twf y plentyn neu eu brifo), cyrraedd y feithrinfa yn yr un cewyn â'r un yr aethant adref ynddo neu riant ddim yn ymateb i afiechyd sydd ar y plentyn. Efallai bydd plentyn yn llwglyd yn barhaus os yw rhiant yn dal bwyd yn ôl neu ddim yn darparu digon o fwyd ar gyfer y plentyn.

Mae esgeuluso i'w weld hefyd drwy arwyddion emosiynol, e.e. mae'n bosib nad yw plentyn yn cael y sylw maent ei angen gartref a'i fod yn chwilio am gariad a chymorth yn y feithrinfa. Gallant fod yn ymlynol ac yn emosiynol Hefyd, gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd os yw'r fam yn cam-drin sylweddau.

Dylid gweithredu dan y pennawd hwn os oes gan gydweithiwr reswm i gredu bod plentyn wedi ei esgeuluso mewn unrhyw fodd.

**Camdriniaeth gorfforol**

Math o gamdriniaeth a all gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu beri niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi'n salwch yn fwriadol, mewn plentyn. Gelwir hyn yn salwch wedi ei ffugio neu salwch bwriadol (FII).

Gall pob plentyn ddioddef anafiadau yn ystod eu blynyddoedd cynnar fel maent yn datblygu ac archwilio. Os yw esboniad o sut mae plentyn wedi cael anaf ddim yn cyd-fynd â'r anaf ei hun neu os yw anaf plentyn yn ddigwyddiad rheolaidd neu fod patrwm i'w anafiadau, yna byddwn yn adrodd ein pryderon.

Rydym yn ymwybodol o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 a bod y gyfraith hon yn berthnasol i rieni sy'n ymweld â Chymru neu'n byw dros dro yng Nghymru hefyd.
Bydd unrhyw weithred o gam-drin corfforol a welir neu a amheuir yn cael ei hadrodd yn y ffordd arferol i'r gwasanaethau plant.

Rydym yn cefnogi rhieni drwy ddarparu gwybodaeth: https://www.llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-yng-nghymru a helpu i ddatblygu dulliau cadarnhaol o rianta a disgyblu gan ddefnyddio adnoddau fel:
https://www.llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo

**Camdriniaeth rywiol**

Camdriniaeth rywiol yw gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nid o reidrwydd rhai sy'n cynnwys lefel uchel o drais, boed y plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddiad (er enghraifft, treisio neu ryw geneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol fel cusanu, mastyrbio, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, er enghraifft plant yn edrych ar, neu yn rhan o'r broses o gynhyrchu delweddau rhywiol,
gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn modd sy'n rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn i bwrpas eu cam-drin yn rhywiol. Gall cam-drin rhywiol ddigwydd ar-lein ac mae modd defnyddio technoleg i hwyluso

cam-drin sy’n digwydd all-lein. Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cam-drin plant yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd cam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.

Rhaid gweithredu os yw aelod staff wedi gweld achlysur/achlysuron ble mae plentyn wedi awgrymu gweithgaredd rhywiol drwy eiriau, chwarae, darlunio, yn dangos diddordeb gormodol mewn materion rhywiol neu’n arddangos gwybodaeth amhriodol i’w hoed datblygiadol o ymddygiad neu iaith rywiol sy’n perthyn i oedolion. Gall hyn gynnwys ailadrodd ymddygiad rhywiol ar ddoliau/teganau neu yn yr ardal chwarae rôl gyda’u cyfoedion, tynnu lluniau sy’n amhriodol i blentyn, siarad am weithgareddau rhywiol neu ddefnyddio iaith neu eiriau rhywiol.

Os yw plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, efallai bydd staff yn sylwi ar symptomau emosiynol a chorfforol.

Arwyddion emosiynol:
- Bod yn or-hoffus neu wybodus mewn ffordd rywiol sy’n amhriodol i oedran y plentyn
- Newid mewn personoliaeth megis bod yn ansicr neu lynu at bobl
- Mynd yn ôl i batrymau ymddygiad iau fel sugno bawd neu ail ddechrau chwarae gyda theganau meddal oedd wedi cael eu rhoi o’r neilltu
- Colli chwant bwyd neu fwyta’n ormodol
- Ynysu eu hunain neu fod yn swil
- Methu canolbwyntio
- Diffyg ymddiriedaeth neu ofni rhywun maent yn ei adnabod yn dda, megis ddim eisiau bod eu hunain gyda gofalwr
- Poeni am ddillad yn cael eu tynnu
- Tynnu lluniau sy’n amlwg yn rhywiol neu actio gweithredoedd amhriodol i’w hoedran
- Defnyddio iaith rywiol amlwg.

Arwyddion corfforol:
- Cleisiau
- Gwaedu, rhedlif, poenau neu ddolur yn eu hardal cenhedlol neu refrol
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Beichiogrwydd.

Bydd unrhyw bryderon am blentyn neu deulu yn cael eu hadrodd i'r tîm gofal cymdeithasol plant.

**Camdriniaeth emosiynol/seicolegol**

Gweithio gyda’n gilydd i ddiogelu plant yn diffinio camdriniaeth emosiynol/seicolegol fel bygythiadau o niwed, rheolaeth orfodol, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu’n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cynorthwyol a thystio i gam-drin eraill. Gall olygu cyfleu i blentyn ei fod yn ddi-werth neu nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol, neu'n cael ei werthfawrogi dim ond i'r graddau y mae'n diwallu anghenion rhywun arall. Efallai bydd yn cynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i’r plentyn fynegi barn, eu distewi’n fwriadol neu ‘wneud hwyl’ am hyn y maent yn ei ddweud neu sut y maent yn cyfathrebu. Gall y rhain gynnwys gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad ar blentyn. Maent yn gallu cynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael eu cam-drin. Gall fod yn fwlio difrifol (gan gynnwys seibr fwlio), peri i blant deimlo dychryn yn aml neu deimlo eu bod mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosiynol yn perthyn i bob math o gamdriniaeth sy’n digwydd i blentyn, er fe all ddigwydd ar ei ben ei hun.

Ymysg yr arwyddion bod plentyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol: cilio oddi wrth oedolyn sydd yn eu cam-drin, mynd i’w cragen, yn ymosodol neu lynu’n dynn er mwyn cael eu cariad a’u sylw, diffyg ymlyniad agos gyda’u rhiant/gofalwr, ymddangos yn ddihyder neu’n bryderus neu fod yn ymosodol tuag at eraill.

Dylid gweithredu dan y pennawd hwn os oes gan yr aelod staff reswm i gredu bod effaith ar ymddygiad a datblygiad emosiynol plentyn, a achosir gan gamdriniaeth barhaus neu ddifrifol. neu gael eu gwrthod yn barhaus. Gall plant hefyd brofi camdriniaeth emosiynol drwy fod yn dyst i gam-drin yn y cartref a gweld oedolion sy’n gofalu amdanynt yn cam-drin alcohol a chyffuriau.

**Camdriniaeth ariannol**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi y bydd y categori hwn yn llai cyffredin ar gyfer plentyn ond gallai dangosyddion gynnwys; peidio â diwallu eu hanghenion am ofal a chymorth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol; neu gwynion bod eiddo personol ar goll.

**Salwch ffug**
Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi'n salwch yn fwriadol, mewn plentyn. Mae'n bosib y bydd y rhiant neu'r gofalwr yn mynd ati i geisio triniaeth neu archwiliad meddygol diangen. Gallent orliwio salwch a symptomau gwirioneddol neu fynd ati'n fwriadol i beri salwch drwy wenwyno gyda moddion neu sylweddau eraill, neu fe allent ymyrryd â thriniaethau meddygol. Mae salwch ffug yn ffurf ar gamdriniaeth gorfforol, a bydd unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd yn unol â'n gweithdrefnau diogelu.

Bydd llawer o blant yn cael toriadau a sgriffiadau o anafiadau arferol plentyndod - dylid cofnodi'r rhain hefyd a'u trafod gyda rheolwr y feithrinfa neu arweinydd yr ystafell.

**Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)**
Gall FGM hefyd gael ei adnabod fel Torri Organau Cenhedlu Benywod. Mae FGM yn weithred ble mae organau cenhedlu benywod yn cael eu hanafu neu eu newid heb fod unrhyw reswm meddygol dros hyn. Yn aml mae'n weithred drawmatig a threisgar iawn i'r dioddefwr a gall achosi niwed mewn sawl ffordd. Gall achosi poen difrifol a gall fod canlyniadau iechyd yn syth neu yn y tymor hir, gan gynnwys problemau iechyd meddwl trafferthion gyda genedigaeth gan achosi perygl i'r plentyn ac i'r fam; a/neu farwolaeth (diffiniad wedi ei gymryd o Ganllawiau Statudol Aml-Asiantaeth ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod).

Gall y weithred hon gael ei chyflawni'n fuan wedi genedigaeth, yn ystod plentyndod yn ogystal â blynyddoedd glasoed, cyn priodas neu yn ystod beichiogrwydd cyntaf benyw ac mae'n amrywio'n fawr yn ôl cymunedau.

Mae FGM yn gamdriniaeth ac yn anghyfreithlon yn y DU. Gall fod yn hynod beryglus a gall achosi:

- Poen difrifol
- Sioc
- Gwaedu
- Heintiau fel tetanws, HIV a hepatitis B ac C
- Difrod i organau
- Colli gwaed a heintiau
- Marwolaeth mewn rhai achosion.

Bydd unrhyw bryder am blentyn neu deulu yn cael ei adrodd i'r tîm gofal cymdeithasol plant yn yr un modd a gyda mathau eraill o gam-drin.  Mae gennym ddyletswydd orfodol i adrodd i'r heddlu ynghylch unrhyw achos ble ymddengys bod gweithred o anffurfio organau cenhedlu benywod wedi digwydd ar ferch dan 18 mlwydd oed.

**Smwddio/fflatio'r fron**
Smwddio'r fron, sydd hefyd yn cael ei alw'n "fflatio'r fron" yw'r broses ble mae bronnau merched ifanc yn cael eu smwddio, eu tylino a/neu eu curo drwy ddefnyddio gwrthrychau caled neu rai wedi eu cynhesu er mwyn i'r bronnau ddiflannu neu i ohirio datblygiad y bronnau yn gyfan gwbl. Y gred yw, drwy wneud hyn, y bydd merched ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu haflonyddu, eu treisio, cipio a phriodas gynnar dan orfodaeth.

Mae smwddio'r fron/fflatio'r fron yn fath o gamdriniaeth corfforol a gall achosi problemau iechyd difrifol fel:

- Crawniadau
- Cystiau
- Cosi
- Niwed i feinwe
- Haint
- Gollwng llaeth
- Anghymesuredd y bronnau
- Twymyn difrifol.

Bydd unrhyw bryder am blentyn neu deulu yn cael ei adrodd i'r tîm gofal cymdeithasol plant yn yr un modd a gyda mathau eraill o gam-drin.

**Camfanteisio’n rhywiol ar blant (CSE)**
Diffinir Camfanteisio’n rhywiol ar blentyn fel ffurf o gam-drin plentyn yn rhywiol. Mae’n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, neu ddylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 mlwydd oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae’r dioddefwr eisiau, a/neu (b) er lles ariannol neu gynnydd mewn statws y tramgwyddwr neu’r hwylusydd. Efallai bod y dioddefwr wedi cael ei (h)ecsbloetio'n rhywiol, hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg.

Byddwn yn ymwybodol o bosibilrwydd Cam-fanteisio’n Rhywiol ar Blant a’r arwyddion a’r symptomau posib o hyn. Os bydd gennym bryderon byddwn yn dilyn yr un gweithdrefnau ag ar gyfer pryderon eraill a byddwn yn cofnodi, ac yn cyfeirio, fel y bo'n briodol.

**Camfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE)**
Y disgrifiad o gam-fanteisio’n droseddol ar blant (CCE) yw pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i berswadio, rheoli, dylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 mlwydd oed. Mae’n bosib y bydd y dioddefwr wedi ei ecsbloetio’n droseddol hyn yn oed os yw’r weithred yn ymddangos yn gydsyniol. Nid oes raid i gyswllt corfforol ddigwydd wrth Gam-fanteisio’n Droseddol ar Blant; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg.

Mae plant yn droseddol gyfrifol o 10 oed ymlaen yng Nghymru a Lloegr, ac mae plant llawer iau na 10 mlynedd wedi dioddef CEE.  Gall ymateb ac adrodd yn gyflym atal plentyn rhag cael cofnod troseddol o oedran cynnar iawn, yn ogystal ag atal y gamdriniaeth a achosir gan oedolion yn camfanteisio.

**Llinellau cyffuriau**
Mae’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) yn disgrifio llinellau cyffuriau fel term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol trefniadol sy’n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon o ddinasoedd mawr i drefi llai, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu ffurf arall o “linell ddelio”. Bydd cwsmeriaid yn byw mewn ardal wahanol i leoliad y delwyr a'r rhwydweithiau, felly mae angen rhedwyr cyffuriau i gludo'r cyffuriau a chasglu’r arian.

Maent yn debygol o ecsbloetio plant ac oedolion agored i niwed i symud y cyffuriau a’r arian, a byddant yn aml yn defnyddio perswâd, bygythion, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau

Ymysg yr arwyddion posib bod plant yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau mae newid mewn ymddygiad, bod ganddynt fwy o arian neu eiddo, newid mewn grwpiau ffrindiau, cilio o fywyd teuluol, newid sydyn mewn ymddangosiad, anafiadau corfforol nad oes modd eu hegluro, aros allan yn hwyr gyda’r nos neu ddiffyg diddordeb yn yr ysgol a gweithgareddau cadarnhaol oedd ganddynt gynt.

**Cogio**
Mae cogio yn fath o drosedd llinellau cyffuriau lle mae gwerthwyr cyffuriau yn meddiannu cartref person agored i niwed er mwyn ecsbloetio’n droseddol fel lleoliad ar gyfer gwerthu cyffuriau, yn aml mewn eiddo aml-ddeiliadaeth neu dai cymdeithasol.  Ymysg yr arwyddion bod hyn yn digwydd i eiddo teuluol mae cynnydd yn nifer y bobl sydd yn cyrraedd neu’n gadael yr eiddo, cynnydd mewn ceir neu feiciau tu allan i’r cartref, ffenestri wedi eu gorchuddio neu lenni wedi eu cau am gyfnodau hir, pobl yn dweud nad ydynt wedi gweld y teulu am gyfnodau hir o amser, arwyddion o ddefnyddio cyffuriau neu gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cartref.

Pe digwydd inni sylwi ar unrhyw un o’r arwyddion yma byddwn yn adrodd am ein pryderon yn unol â’n proses adrodd.

**Diogelu cyd-destunol**
Wrth i bobl ifanc dyfu a datblygu mae’n bosib iddynt ddod yn agored i gael eu cam-drin neu eu hecsploetio y tu allan i’w teulu.  Gall y bygythion all-deuluol hyn ddigwydd yn yr ysgol ac mewn sefydliadau addysgol eraill, yn eu grŵp cymheiriaid, neu’n ehangach yn y gymuned ehangach a/neu ar-lein.

Fel rhan o’n gweithdrefnau diogelu byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac asiantaethau eraill i weithio gyda’n gilydd i ddiogelu plant a darparu cymorth ynghylch pryderon diogelu cyd-destunol.

**Cam-drin Domestig / Trais ar sail Anrhydedd / Priodasau dan Orfod**
Rydym yn ystyried y meysydd hyn fel pryder amddiffyn plant. Gweler y polisi penodol i gael rhagor o fanylion am hyn.

**Eithafiaeth - Dyletswydd Prevent**
Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu plant bregus neu sy'n agored i risg o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi "sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth" a chyfeirio unrhyw bryderon ynghylch eithafiaeth at yr heddlu (mewn ardaloedd blaenoriaeth 'Prevent' bydd gan yr awdurdod lleol arweinydd 'Prevent' sydd hefyd ar gael i gynnig cymorth).

Gall plant ddod i gysylltiad â safbwyntiau gwahanol a chael gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Gall rhai o'r safbwyntiau hyn gael eu hystyried yn radical neu'n eithafol. Radicaleiddio yw'r ffordd y mae person yn dod i gefnogi neu ymwneud ag eithafiaeth a therfysgaeth. Mae'n broses raddol felly efallai na fydd pobl ifanc yr effeithir arnynt yn sylweddoli beth sy'n digwydd.

Mae radicaleiddio yn fath o niwed. Gall y broses gynnwys:

- Meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu wyneb yn wyneb
- Camfanteisio, gan gynnwys camfanteisio rhywiol
- Cam-drin seicolegol
- Dod i gysylltiad â deunydd treisgar a gwybodaeth amhriodol arall
- Y risg o niwed corfforol neu farwolaeth trwy weithredoedd eithafol.

Mae gennym bolisi dyletswydd Prevent a radicaleiddio ar waith. Cyfeiriwch at hwn am fanylion penodol.

**Diogelwch Ar-lein**
Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelwch ein plant ac mae hyn yn cynnwys eu diogelwch ar-lein.

**Caethwasiaeth Modern a Masnachu Plant**
Gweler ein polisi Caethwasiaeth Modern a Masnachu Plant am fanylion ynghylch sut rydym yn cadw plant yn ddiogel yn y maes hwn.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Oedolion**
Fel rhan o'n gweithdrefnau diogelu byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl gydweithwyr a myfyrwyr yn cael eu diogelu rhag unrhyw gam-fanteisio rhywiol yn ogystal ag unrhyw ffurf posibl arall o gamdriniaeth.

**Uwchsbecian**
Mae uwchsbecian yn digwydd pan fo person yn tynnu lluniau o organau cenhedlu neu ben-ôl person o dan eu dillad heb iddynt wybod, naill ai ar gyfer pleser rhywiol neu er mwyn bychanu neu beri trallod i'r unigolyn. Mae hyn yn drosedd a byddwn yn adrodd am unrhyw weithred o'r fath gan ddilyn ein gweithdrefnau adrodd.

**Cam-drin Plant sy'n gysylltiedig â ffydd neu gred (CALFB)**

Gall cam-drin plant sy'n gysylltiedig â ffydd neu gred (CALFB) ddigwydd mewn teuluoedd pan maent yn credu mewn:

- Dewiniaeth a meddiannu gan ysbrydion, cythreuliaid neu'r diafol yn gweithredu drwy blant neu yn eu harwain ar gyfeiliorn (i'w gweld yn draddodiadol mewn rhai credoau Cristnogol)
- Llygad drwg neu djinns (i'w gweld yn draddodiadol mewn rhai cyd-destunau ffydd Islamaidd) a dakini (yn y cyd-destun Hindŵaidd)
- Llofruddiaethau defodol neu luosog ble credir bod lladd plant yn rhoi buddion goruwchnaturiol neu fod defnyddio rhannau o'u cyrff yn creu meddyginiaethau swynol grymus
- Defnyddio cred mewn swyn neu ddewiniaeth i beri ofn mewn plant i'w gwneud yn fwy ufudd wrth iddynt gael eu masnachu i ddibenion caethwasiaeth domestig neu gam-fanteisio'n rhywiol.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac fe fydd enghreifftiau eraill ble mae plant wedi eu niweidio pan fo oedolion yn credu bod eu gweithredoedd wedi esgor ar anffawd.

**4. Monitro Presenoldeb Plant**
Mae'n ofynnol i ni fonitro patrymau presenoldeb plant i sicrhau eu bod yn gyson ac nad ydynt yn achos pryder.

Dylai rhieni roi gwbod i'r feithrinfa cyn i'w plant gymryd gwyliau neu ddiwrnodau i ffwrdd, a dylid ffonio'r feithrinfa i roi gwybod am bob salwch ar y diwrnod, fel bod rheolwyr y feithrinfa'n gallu rhoi cyfrif am absenoldeb plentyn.

Os na fydd plentyn wedi cyrraedd y feithrinfa o fewn y diwrnod hwnnw cysylltir â'r rhieni i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel ac yn iach. Os nad os modd cael gafael ar y rhieni yna bydd y rhifau cyswllt argyfwng a restrir yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod pob parti yn ddiogel. Bydd staff yn gweithio eu ffordd i lawr y rhestr cyswllt brys nes bod cyswllt wedi'i sefydlu a'n bod yn cael gwybod bod popeth yn iawn gyda'r plentyn a'r teulu. Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod manylion cyswllt mewn argyfwng yn gyfredol. Os na ellir cysylltu, byddwn yn asesu os oes angen ymweliad cartref er mwyn sefydlu bod pob parti yn ddiogel. Os na ellir gwneud cyswllt wedi hyn, byddwn yn asesu os yw'n addas cysylltu gydag awdurdodau perthnasol er mwyn iddynt allu ymchwilio ymhellach.

Pan fo plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant, neu yn ystod proses gyfeirio, bydd y feithrinfa yn hysbysu tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol yn ddi-oed ynghylch unrhyw absenoldeb i sicrhau bod y plentyn yn iach a diogel.

Ni ddylai hyn atal rhieni rhag treulio amser gwerthfawr gyda'u plant, ond mae'n ein galluogi i gofnodi presenoldeb plant, fel ein bod ni'n gwybod bod y plentyn yn ddiogel.

**5. Plant sy'n derbyn gofal**
Fel rhan o'n harfer diogelu byddwn yn sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o sut i gadw plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel. I wneud hynny, byddwn yn gofyn am gael gwybod:

- statws cyfreithiol y plentyn (e.e. a yw'r plentyn yn derbyn gofal o dan drefniadau gwirfoddol gyda chydsyniad y rhieni neu ar orchymyn gofal dros dro neu lawn)
- y trefniadau cyswllt ar gyfer y rhieni biolegol (neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant)
- trefniadau gofal y plentyn a lefelau'r awdurdod a ddirprwywyd i'r gofalwr gan yr awdurdod sy'n gofalu amdano ef/amdani hi
- manylion gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac unrhyw asiantaethau cymorth cysylltiedig eraill.
- unrhyw gynllun amddiffyn plant neu gynllun gofal sy'n weithredol ar gyfer y plentyn dan sylw.

Edrychwch ar y polisi Plant sy'n Derbyn Gofal i gael rhagor o fanylion.

**6. Staffio a gwirfoddoli**
Ein polisi yw darparu amgylchedd diogel i bob plentyn. Dim ond oedolyn sy'n cael ei gyflogi gan y feithrinfa i ofalu am blant ac sydd wedi cael gwiriad uwch y rhestr gwahardd (plant) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a fyddwn yn caniatáu i gael ei adael ar ei ben ei hun gyda phlant. Nid ydym yn caniatáu i wirfoddolwyr fod ar eu pennau eu hunain gyda phlant nac unrhyw oedolyn arall allai fod yn bresennol yn y feithrinfa, ni waeth a oes ganddynt dystysgrif DBS ai peidio.

Bydd y staff i gyd yn mynychu hyfforddiant amddiffyn plant ac yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol cychwynnol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Bydd hyn yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer sylwi ar arwyddion ac ymddygiadau cam-drin a chamdrinwyr / camdrinwyr posibl, cofnodi a rhoi gwybod am bryderon a chreu amgylchedd diogel i'r plant yn y feithrinfa. Yn ystod y cyfnod ymsefydlu bydd y cydweithwyr yn cael gwybod am Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd ar gael i'w uwchlwytho ac yn cael manylion cyswllt swyddog dynodedig yr awdurdod lleol (PDALL), tîm gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) ac AGC i'w galluogi i adrodd am unrhyw bryderon diogelu, yn annibynnol, os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny.

Bydd hyfforddiant yn dilyn https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol. Byddwn yn sicrhau bod yr holl gydweithwyr a gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau yn cael yr hyfforddiant sy'n gweddu i lefel eu cyswllt a'u cyfrifoldeb diogelu yn y feithrinfa yn unol â Safon 20 ac Atodiad C y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC).

Mae addasrwydd parhaus staff yn cael ei fonitro trwy:

- goruchwylio yn rheolaidd
- sgyrsiau cysylltiedig
- arsylwadau gan gydweithwyr
- datganiad blynyddol o addasrwydd cydweithwyr
- cymwyseddau diogelu
- adolygiad rheolaidd o bob DBS

Mae’r feithrinfa yn diogelu plant a staff drwy’r canlynol:

- Rydym yn darparu adnoddau staffio digonol a phriodol i ddiwallu anghenion pob plentyn
- Rydym yn rhoi gwybod yn glir i ymgeiswyr bod swyddi yn y feithrinfa wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 Rhoi gwybod i ymgeiswyr bod angen cynnal gwriadau cyn y gallwn gadarnhau’r swyddi. Os bydd ceisiadau’n cael eu gwrthod oherwydd gwybodaeth a gafodd ei datgelu, mae gan ymgeiswyr yr hawl i wybod am hynny a rhoddir arweiniad iddynt i herio unrhyw wybodaeth anghywir
- Rhoi cyfle cyson, yn ystod bob goruchwyliad a thrwy fod â pholisi drws agored, i staff/gwirfoddolwyr a myfyrwyr i ddatgan newidiadau a allai effeithio’u haddasrwydd i edrych ar ôl plant. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am eu hiechyd, meddyginiaeth neu am newidiadau yn eu bywyd cartref, fel ydy unrhyw un y maent yn byw gyda nhw yn eu cartref wedi cyflawni trosedd neu wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad sy'n golygu eu bod wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant
- Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi hefyd ym mhob contract ar gyfer staff, y mae'n rhaid iddynt lofnodi 2 gopi ohonynt, un i'r cyflogwr, a’r llall i’w gadw yn eu cofnodion eu hunain.
- Rydym yn gofyn am wiriadau DBS bob tair blynedd neu  i ailwirio hanes troseddol ac addasrwydd staff i weithio gyda phlant yr un modd â gyda chydsyniad yr unigolion.
- Rydym yn cadw at ofynion Isafswm y Safonau Cenedlaethol ac unrhyw ganllawiau AGC/Estyn o ran cael tystlythyrau a gwiriadau addasrwydd ar gyfer staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr, er mwyn sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y lleoliad yn addas i wneud hynny.
- Rydym yn sicrhau ein bod yn derbyn o leiaf dau dystlythyr ysgrifenedig CYN i aelod newydd o staff ddechrau gweithio gyda ni.
- Bydd pob myfyriwr wedi cael gwiriadau DBS uwch â’r rhestr gwahardd (plant) cyn iddynt ddechrau eu cyfnod ar leoliad.
- Nid yw gwirfoddolwyr, gan gynnwys myfyrwyr, yn gweithio heb oruchwyliaeth.
- Cadw at ofynion Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed (2006) a Deddf Gofal Plant 2006 (diwygiwyd yn 2018) mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso rhag darparu gofal plant, sy’n cael ei ddiswyddo o'n cyflogaeth, neu'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau a fyddai fel arall wedi arwain at ddiswyddo am resymau pryder amddiffyn plant, trwy gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfeirio'r unigolyn hwnnw at y DBS er mwyn ystyried gwahardd.
- Mae gennym weithdrefnau ar gyfer cofnodi manylion ymwelwyr â'r feithrinfa ac rydym yn gweithredredu camau diogelwch i sicrhau bod gennym reolaeth dros bwy sy'n dod i'r feithrinfa, fel nad oes gan unrhyw berson diawdurdod fynediad heb oruchwyliaeth i'r plant
- Bydd pob ymwelydd/contractwr yn cael ei oruchwylio tra byddant yn yr adeilad, yn enwedig pan fyddant yn y mannau hynny y mae'r plant yn eu defnyddio.
- Fel tîm o staff byddwn yn gwbl ymwybodol o sut i ddiogelu'r amgylchedd meithrin cyfan a byddwn yn ymwybodol o beryglon posibl ar ffiniau'r feithrinfa fel dronau, llecynnau Pokémon, dieithriaid yn loetran. Byddwn yn sicrhau bod y plant yn parhau i fod yn ddiogel bob amser.
- Mae'r Polisi Ymddygiad Staff yn cyd-fynd â'r polisi hwn i'n galluogi i fonitro newidiadau mewn ymddygiad allai beri pryder.  Mae’r staff i gyd yn llofnodi’r polisi hwn hefyd, i sicrhau bod y rheolwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau fel y gallwn gefnogi'r aelod staff unigol a sicrhau nad yw diogelwch a gofal y plant yn cael eu peryglu.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol i beidio â chysylltu â rhieni/gofalwyr a phlant trwy gyfryngau cymdeithasol ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol eu hunain a byddant yn adrodd am unrhyw ddigwyddiadau o’r fath i’r tîm rheoli i ddelio â nhw.
- Mae’r staff i gyd yn gallu cael mynediad at y polisi chwythu'r chwiban a chydymffurfio ag ef. Bydd yn eu galluogi i rannu unrhyw bryderon allai godi am eu cydweithwyr mewn modd priodol ag Ann Johnson (yr unigolyn a enwyd), i gynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Cymru. Rydym yn annog diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw ac mae pob pryder yn cael ei gymryd o ddifrif
- Mae arwyddion o ymddygiad staff amhriodol yn gallu cynnwys sylwadau rhywiol amhriodol; gormod o sylw un i un y tu hwnt i ofynion eu swydd a'u cyfrifoldebau arferol; neu rannu delweddau yn amhriodol. Nid yw

hon yn rhestr gynhwysfawr, rhaid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau mewn ymddygiad a gweithredu arnynt ar unwaith

- Sicrhau fod yr holl staff yn mynd i gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd lle mae cyfleoedd ar gael i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â phlant unigol, hyfforddiant amddiffyn plant, pryderon diogelu ac unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol.
- Cael arsylwadau cymheiriaid a rheolwyr yn y lleoliad i sicrhau bod y gofal a ddarparwn ar gyfer plant ar y lefel uchaf a bod unrhyw feysydd i'w datblygu gan gydweithwyr yn cael eu nodi'n gyflym. Mae arsylwadau cymheiriaid yn ein galluogi i rannu adborth adeiladol, datblygu arfer a meithrin ymddiriedaeth fel bod cydweithwyr yn gallu rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Codi pryderon gyda'r person dynodedig ac ymdrin â nhw mewn modd priodol ac amserol
- Mae defnyddio staff yn y feithrinfa yn caniatáu goruchwyliaeth a chymorth cyson. Lle bo angen i blant dreulio amser oddi wrth weddill y grŵp, bydd y drws yn cael ei adael yn gilagored neu bydd camau diogelwch eraill yn cael eu gweithredu i sicrhau diogelwch y plentyn a'r oedolyn.

Hefyd mae gennym ni bolisi Ffonau Symudol a defnydd dyfeisiau electronig eraill a pholisi rhwydweithiau cymdeithasol sy'n datgan sut y byddwn yn cadw plant yn ddiogel rhag y dyfeisiau hyn tra yn y feithrinfa. Mae hyn hefyd yn cysylltu gyda'n polisi Diogelwch Ar-lein.

Mae gan ein meithrinfa ymrwymiad clir i ddiogelu plant a hyrwyddo llesiant. Pe byddai unrhyw un yn credu nad yw'r polisi hwn yn cael ei gynnal, mae'n ddyletswydd arnynt i roi gwybod i Reolwr y Feithrinfa/person cofrestredig cyn gynted â phosibl.

**Gwasanaethau cymorth cynnar**
Pan allai plentyn a/neu deulu elwa o gymorth ond nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer Tîm Gofal Cymdeithasol Plant yr Awdurdod Lleol, bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r teulu ynglŷn â gwasanaethau Cymorth Cynnar.

Mae cymorth cynnar yn darparu cymorth cyn gynted â bod pryder/maes angen yn dod i'r amlwg gan helpu i wella canlyniadau ac osgoi uwch gyfeirio at wasanaethau'r Awdurdod Lleol. Weithiau efallai nad yw pryderon ynghylch plentyn yn ymwneud â diogelu ac mae'n ymwneud fwy â'u hamgylchiadau teuluol unigol. Bydd y feithrinfa yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr i adnabod, gyda'ch cydsyniad, unrhyw wasanaethau cymorth cynnar a all fod o fudd i'r plentyn neu eich amgylchiadau unigol. Gall hyn fod yn gymorth teulu, cymorth banc bwyd, gwasanaethau cwnsela neu rianta.

**7. Siart Llif Diogelu Plant - pryder ynghylch plentyn**

**7. Siart Llif Diogelu Plant - pryder ynghylch cydweithiwr**